OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 1215 (Cy. 252)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU
# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Cyd-drefniadaeth y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygio) (Cymru) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *21 Tachwedd 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *23 Tachwedd 2022* |
| *Yn dod i rym - -* | *14 Rhagfyr 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 50(3) a 53(2) o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**2**), ymgynghorwyd yn agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd wrth lunio'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 2020 p. 21.
(**2**) EUR 2002/178, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.